



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Preswyl Dôl Awel

**Cartref Preswyl Dôl Awel
Y Ddôl
Abergele
LL22 9AW**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

7 Hydref 2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a phaidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Preswyl Dôl Awel

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	ARA CARE SERVICE LTD
Lleoedd cofrestredig	12
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Mewnosod â llaw 12 Tachwedd 2020
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol o ran y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.

Crynodeb

Mae gan Ddôl Awel Unigolyn Cyfrifol sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae rheolwr yn ei swydd sy'n astudio ar hyn o bryd ar gyfer ei gymhwyster i fod yn gofrestredig â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal personol i oedolion. Cynllunnir gofal unigolion yn unol â'u hanghenion unigol. Ysgrifennir cynlluniau mewn ffordd sy'n dangos y nodau gofal a ddymunir gan yr unigolion.

Er bod asesiadau risg ynglŷn â gofal unigolion ar waith, gwnaethom nodi nad yw'r rhain bob amser yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae angen gwella hyn er mwyn bodloni gofynion y rheoliadau. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau AGC y bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu. Er na nodir unrhyw effaith uniongyrchol ar y preswylwyr, rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae'r bobl yn derbyn gofal gan staff sy'n cael hyfforddiant a goruchwyliaeth er mwyn cyflawni eu gwaith yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod o'r farn eu bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda.

Mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ac uwchraddio i'r amgylchedd ar waith. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus. Mae'r offer mewn cyflwr gweithio da ac mae'n cael ei wasanaethu yn ôl yr angen. Mae rhaglen ar waith ar gyfer adnewyddu offer sydd ag ôl traul arno.

Mae'r bobl yn cael canllaw ysgrifenedig ynglŷn â'r gwasanaeth. Mae hwn yn disgrifio'r hyn y gallant ei ddisgwyl o'r cartref. Mae hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall y bobl fynegi unrhyw bryderon.

Mae'r bobl yn elwa ar fyw mewn cartref gyda pholisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn adolygu'r polisïau'n rheolaidd ac yn eu diweddarau i sicrhau bod y bobl yn derbyn gwasanaeth o ansawdd.

Llesiant

Mae gan y bobl lais dros fywyd o ddydd i ddydd. Mae'r gweithwyr cymorth gofal yn ysgrifennu cynlluniau personol y bobl yn unol â'u hanghenion unigol. Mae hyn yn cynnwys eu hoffterau a'u casbethau, eu harferion, a sut maen nhw'n hoffi gwneud pethau. Mae hanes y bobl yn cael ei gynnwys gyda manylion pobl a digwyddiadau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl â chyfeillgarwch a pharch. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn eu gofal yn dda. Mae nifer fach o'r staff yn gallu siarad Cymraeg. Nodir dewis iaith y bobl yn eu cynlluniau personol. Mae'r sefydliad yn ceisio recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn weithredol.

Mae iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl yn cael eu monitro'n briodol. Cyfeirir y bobl at weithwyr proffesiynol gofal iechyd mewn modd amserol. Dywedodd y rheolwr bod y bobl yn cael adolygiad gan y meddyg teulu fel y bo angen. Mae tystiolaeth o adolygiadau gan feddygon teulu ac arbenigwyr yng nghynlluniau personol y bobl. Mae cyngor a chyfarwyddiadau a roddir ar gyfer gofal y bobl wedi'u dogfennu'n ofalus, ynghyd â chanlyniadau. Dywedodd y rheolwr wrthym y gallent gael mynediad at adolygiadau meddyginiaeth a phresgripsiynau newydd yn hawdd.

Amddiffynnir y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r gwasanaeth yn adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau a damweiniau i AGC ac awdurdodau lleol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae staff yn derbyn hyfforddiant ynglŷn â diogelu.

Gall y bobl gadw cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae gan y cartref bolisi ymweld COVID-19 . Mae'r staff gofal yn darparu gweithgareddau ar gyfer y bobl megis cwisiau, bingo, crefftiau a cherddoriaeth. Mae'r bobl yn eistedd gyda'i gilydd yn yr ystafell fwyta i fwyta prydau o fwyd a gallant gymdeithasu.

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn byw yn y cartref. Gwnaethom ganmol y staff a'r bwyd a ddarperir yn y cartref.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae asesiadau cyn derbyn i bob unigolyn yn cael eu cwblhau cyn eu bod yn derbyn y gwasanaeth, i sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Mae'r canllaw ysgrifenedig yn egluro'r hyn y gall y gwasanaeth ei gynnig a sut y gall y bobl fynegi unrhyw bryderon. Mae anghenion gofal y bobl yn cael eu dogfennu yn unol â'u gofynion unigol. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac maent yn gallu cynnig dewisiadau dyddiol priodol iddynt.

Nodir y risgiau i iechyd a llesiant y bobl. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad yw'r holl asesiadau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i ni y bydd hyn yn cael sylw. Er nad oes unrhyw effaith ar unwaith wedi'i nodi ar gyfer y bobl, rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae'r bobl yn cael pryddau o fwyd a dewisiadau priodol. Gwelsom fod digon o fwyd ac offer yn y gegin ac mae wedi'i threfnu'n dda. Darperir ar gyfer deietau arbennig ac mae'r staff yn ymwybodol o hoffterau bwyd a diod y bobl. Mae pwysau'r bobl yn cael ei fonitro bob mis i sicrhau eu hiechyd.

Gofelir am feddyginiaethau yn briodol, ac maent yn cael eu storio yn briodol. Mae dau aelod o staff yn cyfrif y meddyginiaethau i mewn ac allan o'r cartref. Dywedodd y rheolwr fod y cartref yn cael ei gefnogi'n dda gan fferyllfa leol a all ddarparu dogfennau sy'n dangos prosesau hyfforddiant ac archwiliad mewn perthynas â meddyginiaeth.

Mae gan y cartref bolisi a gweithdrefn COVID-19 ar waith. Gofynnwyd i ni am ganlyniadau ein profion llif unffordd cyn mynd i mewn i'r adeilad. Mae hylif diheintio dwylo ar gael i'w ddefnyddio. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ynglŷn â gweithdrefnau COVID-19, cynnal profion a defnyddio cyfarpar diogelu personol. Gwelsom o'r cynlluniau personol fod y bobl wedi cael y cyfle i gael brechlynnau COVID-19. Gwnaeth y staff gofal wisgo cyfarpar diogelu personol trwy gydol ein hymweliad arolygu. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal a'r preswylwyr yn gwneud profion llif unffordd yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn addas at ei ddiben. Mae coridorau yn rhydd o beryglon baglu ac mae allanfeydd tân yn glir o unrhyw rwystrau. Mae ystafelloedd pobl yn lân ac yn daclus. Gall y bobl rhoi eitemau personol yn eu hystafelloedd sy'n bwysig iddynt ac yn eu helpu i deimlo'n gartrefol. Gwnaed gwelliannau amgylcheddol i'r cartref; mae rhaglen cynnal a chadw barhaus ar waith. Mae amserlen lanhau ar waith, sy'n briodol mewn perthynas â phandemig COVID-19.

Mae asesiadau iechyd a diogelwch ar waith ac maent yn gyfredol. Mae gwiriadau diogelwch tân yn cael eu cwblhau bob wythnos. Mae offer trydanol yn cael eu profi'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel. Darperir offer i'r bobl sy'n addas ar gyfer eu gofal; mae hyn yn cael ei wasanaethu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr i sicrhau ei fod mewn cyflwr da.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r gwaith o gynnal y cartref yn ddiraffferth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cynnal ei ymweliadau yn unol â'r rheoliadau ac wedi llunio adroddiadau asesu o ansawdd ynglŷn â'r cartref. Mae'r rheolwr yn weladwy i'r staff ac mae ganddo oruchwyliaeth dros y gwasanaeth. Mae'n cael ei gefnogi gan yr unigolyn cyfrifol i gwblhau ei gymwysterau er mwyn iddo gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu yn rheolaidd i sicrhau llesiant y bobl.

Mae'r staff gofal yn cael eu recriwtio'n briodol i mewn i'r gwasanaeth. Gwelsom fod ffeiliau personél mewn trefn dda, a bod gwiriadau ar waith i sicrhau bod y staff yn gallu gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r staff gofal yn derbyn hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt sylfaen wybodaeth dda er mwyn darparu gofal priodol. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod nhw'n hapus yn y gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda i'w helpu wrth eu gwaith bob dydd.

Nid yw'r gwasanaeth wedi datgan bod ganddo unrhyw bryderon ariannol. Buddsoddwyd yn yr amgylchedd; mae hon yn raglen barhaus. Mae digon o stoc o fwyd ffres. Gall y bobl gael mynediad at yr offer sy'n ofynnol ar gyfer eu gofal a'u diogelwch.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
72	Rheoliad 72 (1)	Ni chyflawnwyd

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
----------	----------	--------

16	Nid yw'r cynllun personol yn cael ei adolygu'n rheolaidd i ddatblygu ac adlewyrchu newidiadau mewn anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol.	Newydd
79	Rheoliad 79	Cyflawnwyd
16(3)	Rheoliad 16 (3)	Cyflawnwyd
19(1)	Rheoliad 19 (1) (3) (a) (b)	Cyflawnwyd
36(2)(d)	Rheoliad 36 (2) (d)	Cyflawnwyd
57	Rheoliad 57	Cyflawnwyd

Dyddiad cyhoeddi 31/03/2022